| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **MEHEFIN 26 2014** |
| **TEITL:** | **CWYNION IAITH** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.** |

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB. |
|---|---|---|
| **Ebrill 2014** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd a dderbyniodd ffurflen Trwyddedu Tai Amlddeiliadaeth uniaith Saesneg | Y Gwasanaeth yn ymchwilio'r mater, ac yn darganfod camgymeriad; cydnabod bod hyn yn groes i'r disgwyl, ac anfon ymddiheuriad |
| **Ebrill 2014** | Cwyn ynglŷn â Chymraeg gwallus mewn hysbyseb am Ofalwyr Maeth | Fersiwn drafft (heb ei wirio) wedi'i anfon at y Daily Post mewn camgymeriad. Anfonwyd fersiwn cywir at y papur ac ymddiheuriad i'r sawl a gwynodd |
| **Ebrill 2014** | Cwyn ynglŷn ag ymateb ffon Saesneg mewn Canolfan Hamdden | Y sylwadau'n derbyn sylw'r Gwasanaeth drwy'r cynllun Pencampwyr Iaith. Ymddiheuriad i'r cwynydd |
| **Ebrill 2014** | Cwyn ynglŷn â Therapydd Galwedigaethol yn gyndyn o ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleient | Canfod mai diffyg ymwybyddiaeth iaith oedd tu ôl i hyn. Bydd Swyddog Datblygu'r Gweithle mewn cydweithrediad ag Uned Hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych tuag at gryfhau'r elfen yma fel rhan o wersi Cymraeg y Cyngor. |
| **Mai 2014** | Cwyn am becyn tendr uniaith Saesneg mewn perthynas ag ail-wynebu ffordd ger mynedfa ysgol | Er bod y contractwyr wedi nodi dewis i dderbyn dogfennau technegol cyfrwng Saesneg, y Gwasanaeth Eiddo yn derbyn y camgymeriad ac yn ymddiheuro nad oedd y dogfennau cyflwyno tendr yn ddwyieithog. Cadarnhau bod staff yn cael eu hatgoffa o'r gofynion. |